SUL YN DILYN YR YSTWYLL / Y GWEDDNEWIDIAD

EXODUS 34:29-35; SALM 99;
2 CORINTHIAID 3:12–4:2; LUC 9:28-36 [37-43]

● **Gweddi agoriadol**

Cyfarfyddwn heddiw, Arglwydd Dduw, nid fel yn amser Moses pan oedd mur pendant, y llen, yn gwahanu'r bobl o'th bresenoldeb, ond yn yr wybodaeth sicr i len y deml gael ei rhwygo'n ddau pan fu dy Fab farw ar y groes drosom, gan roi mynediad i ni i'r lle mwyaf sanctaidd.
Gyda'r hyder hwn y down at dy orsedd â'n haberth moliant, a gofyn i ti ein bendithio â'th bresenoldeb, agosâ atom a'n galluogi i'th nabod yn well.

● **Moliant**

Ryfeddod pur, Creawdwr popeth,
mae goleuni dy ogoniant
yn llenwi'r nefoedd;
mae anadl dy Ysbryd
yn chwythu drwy'r awyr;
mae'r sêr uwchben yn dystion mud
i rym ein Duw.

Drwy dy air y gwnaed popeth;
drwy dy anadl cynhelir popeth.
Drwy dy law y lluniwyd ni
fel y bydd crochennydd yn mowldio clai,
wedi ein llunio o bridd y ddaear

i fod yn ddelw'r dwyfol.
Drwy dy ras safwn yma,
dy greadigaeth yn addoli ei chrëwr
gydag aberth moliant.

● **Cyffes**
Am y dyddiau hynny pan anghofiwn
pa mor agos wyt
a'r croeso mawr sydd i'n gweddi:

Arweinydd: Yn dy drugaredd
Pawb: Maddau i ni.

Pan dynnir ni fel arall a'n sylw yn symud
a ninnau yn ffafrio
clywed galwad y byd:

Arweinydd: Yn dy drugaredd
Pawb: Maddau i ni.

Pan fo'n haddoli yn methu dy blesio
am nad yw ein bywydau
mewn priodas â'r geiriau a ddefnyddiwn:

Arweinydd: Yn dy drugaredd
Pawb: Maddau i ni.

Cofleidia ni eto, annwyl Arglwydd,
mewn cymdeithas gariadus gyda thi.
Tyn ni yn nes at dy orsedd
a datguddia dy hun unwaith eto.

● Diolch

Dad hollalluog,
dechrau a diwedd popeth ydym,
y gobaith y glynwn wrtho,
atat ti y dygwn ein hoffrwm diolch.

Iesu Grist,
Gair Duw a ddaeth yn gnawd,
yr un y cerddwn yn ôl ei droed,
atat ti y dygwn ein hoffrwm diolch.

Ysbryd Glân,
sy'n creu anadl a bywyd i bopeth,
presenoldeb bywiol yn ein calonnau,
atat ti y dygwn ein hoffrwm diolch.

Dri yn un,
bydd di'r undeb rhwng ein bywydau,
y goleuni sy'n ein goleuo
a'r graig y cerddwn arni,
heddiw a phob dydd.